# POLISI AMGYLCHEDDOL

## DATGANIAD AGORIADOL

Mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol byd eang ac yn cydnabod y gall ein gwaith gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar yr amgylchedd lleol, rhanbarthol a byd-eang. Rydyn ni'n ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, a hyrwyddo dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn ei gyd-destun ehangaf.

Ymhellach, yn dilyn cynnig a basiwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol 2019, mae Cymdeithas yr Iaith yn:

- cefnogi a chydsefyll ag ymgyrchwyr sydd wedi bod yn tynnu sylw at yr argyfwng rydym yn ei wynebu, yn arbennig arweiniad ysbrydoledig y bobl ifanc ar draws y byd sydd wedi cymryd rhan yn y streiciau ysgol dros yr hinsawdd
- collfarnu diffyg gweithredu digonol llywodraethau Prydain a Chymru yn wyneb yr argyfwng
- nodi'r effaith ddinistriol fydd newid hinsawdd a dirywiad yr amgylchedd naturiol yn cael ar gymunedau Cymraeg
- nodi taw pobloedd frodorol a chymunedau bregus lleiafrifol sy'n profi effeithiau newid hinsawdd fwyaf, er taw nhw sydd lleiaf cyfrifol am eu hachosi
- credu bod y frwydr dros ein hiaith ynghlwm â'r frwydr dros ddyfodol ein planed a'n plant ac yn cydnabod y cyswllt annatod rhwng cynaliadwyedd ein hiaith, ein cymunedau a'n hamgylchedd naturiol
- credu bod angen i'r Gymraeg ac ieithoedd a diwylliannau llai eraill fod wrth galon y gwaith o wireddu cyfiawnder hinsawdd.

Ein bwriad yw:

a. adolygu ein gweithredoedd fel mudiad gyda'r nod o leihau eu heffaith amgylcheddol
b. datblygu ein gwaith ar faterion amgylcheddol a'r cyswllt rhwng y Gymraeg a'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys cyhoeddi polisïau penodol yn y maes
c. cymryd cyfleoedd i gydweithio a chydsefyll gydag ymgyrchwyr a mudiadau eraill yn y maes amgylcheddol
ch. annog ein haelodau i gymryd rhan mewn streiciau a gweithredoedd uniongyrchol sydd â'r nod o ymgyrchu dros gyfiawnder hinsawdd, lle mae'r rhain yn cyd-fynd â'n hegwyddorion fel mudiad.

## LLEIHAU GWASTRAFF

- Rydym yn argraffu dogfennau ond pan mae hynny'n angenrheidiol.
- Rydym yn ceisio ail-ddefnyddio deunyddiau ble mae hynny'n bosib, yn arbennig deunyddiau pacio, ac ati.
- Rydym yn ailgylchu deunyddiau a nwyddau sy'n gallu cael eu hailgylchu'n lleol.
- Wrth gynnal digwyddiadau ble gweinir bwyd neu ddiod, rydym yn osgoi defnyddio platiau, cyllyll a ffyrc a chwpanau plastig ac, os oes rhaid defnyddio eitemau 'taflu i ffwrdd', byddwn yn defnyddio rhai y gellir eu compostio neu eu hailgylchu.

**Llefydd i wella**

- Cynyddu ffyrdd o weithredu'n ddi-bapur, e.e. yng nghyfarfodydd y Senedd, rhoi'r Tafod ar ffurf electronig.
- Ble mae'n rhaid argraffu cyhoeddiadau, taflenni, sticeri, placardiau, ac ati, sicrhau y gwneir hynny ar ddeunydd y gellir ei ailgylchu.
- Edrych ar opsiynau gwahanol fel nad yw lleoliadau ble cynhelir gigs yn defnyddio cwpanau plastig taflu ffwrdd.
- Ystyried ffyrdd mwy gwyrdd o gyflwyno gwybodaeth a gweithgarwch ar ein stondin mewn gwyliau megis Eisteddfodau Cenedlaethol.

**PRYNU**

- Rydym yn ceisio prynu nwyddau sydd wedi'u gwneud o'r deunyddiau mwyaf eco-gyfeillgar (e.e. papur eco-gyfeillgar).
- Rydym yn cefnogi busnesau a chwmnïau lleol, neu fusnesau sy'n gweithredu yn Gymraeg a/neu sydd wedi eu lleoli yng Nghymru ble bynnag y mae hynny'n bosibl.
- Wrth archebu nwyddau marchnata, byddwn yn osgoi cynhyrchu nwyddau sy'n niweidiol i'r amgylchedd. Byddwn hefyd yn ystyried tarddiad y defnydd a'r cynnyrch wrth gynhyrchu dillad (e.e. mae ein crysau-T newydd yn 100% organig o dan faner logo safon *Fairwear Foundation*).
- Wrth brynu bwydydd (te, coffi, ac ati) neu wrth archebu bwyd ar gyfer digwyddiadau byddwn yn ceisio sicrhau bod y bwyd yn lleol, yn dymhorol a/neu'n Fasnach Deg.
- Os byddwn yn prynu cynnyrch glanhau, byddwn yn prynu rhai ecogyfeillgar.

**Llefydd i wella**

- Sicrhau bod y ffactorau amgylcheddol sydd ynghlwm â chynhyrchu, defnyddio a gwaredu unrhyw eitem, yn cael eu hystyried bob tro y prynir nwyddau, gan gynnwys ystyried a oes rhaid prynu eitem newydd (h.y. a ellir ei rannu â mudiad arall neu ei fenthyg, a ellir ei brynu yn ail-law neu wedi ei adnewyddu?).

**ARBED YNNI A DŴR**

- Mae'r mudiad yn llogi dwy swyddfa felly heb reolaeth dros yr adeiladau hynny o ran trydan, ynni adnewyddol, ac ati.
- O fewn pob swyddfa, cymerir camau i arbed trydan trwy ddiffodd golau a theclynnau nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- Mae'r Gymdeithas wedi buddsoddi arian gyda Chwmni Cydweithredol Awen, Cwmni Cydweithredol Egni a Chynllun Ynni Sir Gâr.

**Llefydd i wella**

- Parhau i ystyried ffyrdd o arbed ynni a dwr.

**TEITHIO**

- Rydym yn cynnal llawer o gyfarfodydd mewnol ar-lein er mwyn osgoi teithio diangen ac er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn gallu cyfrannu at waith y Gymdeithas.
- Gyda digwyddiadau eraill, rydym yn annog pobl i rannu car neu ddefnyddio

trafnidiaeth gyhoeddus.

**Llefydd i wella**

- Gwneud mwy o ymdrech i hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus, beicio neu gerdded fel y ffordd orau o deithio i staff a gwirfoddolwyr.
- Gwneud mwy o ddefnydd o blatfformau ar-lein i gynnal digwyddiadau.

Bydd y Polisi Amgylcheddol hwn yn cael ei rannu gyda staff ac aelodau'r Senedd, a bydd copi ar gael ar ein gwefan (neu gall aelodau wneud cais am gopi). Bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

*Mabwysiadwyd Medi 2020*
*Adolygwyd Mehefin 2023, Mehefin 2024*